Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth; Mid Wales Corporate Joint Committee

CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (CTRh) CANOLBARTH CYMRU

Atodiad 8 – Offeryn Blaenoriaethu CCTRh

CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r sail resymegol a'r dull a ddefnyddir wrth gymhwyso Offeryn Blaenoriaethu'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh) a ddatblygwyd gan Trafnidiaeth Cymru (TrC) ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (CTRhCC). Mae CTRhCC wedi cael ei gynnwys yn Adran 8 o CTRhCC.

CEFNDIR I'R CCTRh

Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh) yn rhestr wedi'i blaenoriaethu o'r cynlluniau a'r prosiectau penodol yn y rhanbarth y mae awdurdodau lleol Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn helpu i gyflawni amcanion CTRhCC a gweithredu Llwybr Newydd ar lefel ranbarthol. Mae hyn yn unol â Chanllawiau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru sy'n nodi, *'Dylai'r CCTRh fod ar ffurf rhestr o gynlluniau a chael ei osod yn nhrefn blaenoriaeth o ran effaith ar gyflawni blaenoriaethau Llwybr Newydd. Dylai'r rhain fod yn gynlluniau y mae awdurdodau trafnidiaeth lleol yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.'*

Mae'r CCTRh yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r cynlluniau tymor byr hynny sy'n flaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf hyd at 2030. Fodd bynnag, mae rhai cynigion tymor canolig a thymor hwy hefyd wedi cael eu cynnwys yn CTRhCC er mwyn sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn cael eu nodi ar gyfer cyllid datblygu lle bo angen, a sicrhau bod rhaglen barhaus o gynlluniau CTRhCC yn cael ei datblygu.

Mae cynlluniau o fewn y CCTRh wedi cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Cysylltedd Strategol (SC)
- Cerdded, Beicio ac Olwyno (WCW)
- Trafnidiaeth Gyhoeddus ac Integreiddio (PTI)
- Diogelwch ar y Ffyrdd (RS)
- Cerbydau Gwyrddach (GV)
- Cludiant Cymunedol (CT)
- Newid Ymddygiad (BC)

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

OFFERYN BLAENORIAETHU CCTRH TRC

Mae TrC wedi datblygu offeryn blaenoriaethu i gynorthwyo'r broses CCTRh. Mae Dogfen Ganllaw Offeryn Blaenoriaethu CCTRh TrC yn nodi, *'Mae'r offeryn wedi cael ei gynllunio i wella'r broses gynllunio strategol trwy helpu cynllunwyr i flaenoriaethu prosiectau a mentrau o fewn y CCTRh'* a'r nod yw *'helpu i benderfynu ym mha drefn y dylid rhoi sylw i gynlluniau'.*

Mae Dogfen Ganllaw Offeryn Blaenoriaethu'r CCTRh yn rhoi'r cefndir canlynol i Offeryn Blaenoriaethu CCTRh. *'Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) yn nodi'r weledigaeth ar gyfer yr hyn y mae pob Cyd-bwyllgor Corfforedig am ei gyflawni, gan gynnwys yr amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r CCTRh yn nodi'r rhestr o gynlluniau trafnidiaeth yn nhrefn flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth. Mae'r offeryn blaenoriaethu yn helpu i symud o'r CTRh i restr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau. Dangosir crynodeb o'r camau yn y CTRh a sut y bydd yr offeryn blaenoriaethu yn cael ei ddefnyddio yn Ffigur 1. '*

Ffigur 1Dangosir camau'r offeryn blaenoriaethu mewn gwyn



Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

DEFNYDDIO'R OFFERYN BLAENORIAETHU

Defnyddiwyd Offeryn Blaenoriaethu CCTRh TrC fel sail ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau o fewn CCTRh Canolbarth Cymru. Un o egwyddorion allweddol yr offeryn yw ei hyblygrwydd a'i allu i ateb anghenion y rhanbarth. Mae ei hyblygrwydd yn golygu y gellir defnyddio unrhyw wybodaeth sydd ar gael adeg ei defnyddio.

Mae blaenoriaethu cynlluniau'r CCTRh yn seiliedig ar eu potensial i gyfrannu at amcanion CTRhCC a'r gallu cyffredinol i'w cyflawni.